



Gwastraff a Thipio Anghyfreithlon

Mae'r cynllun sesiwn hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar y pwnc gwastraff, yn benodol sbwriel a thipio anghyfreithlon



Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn ei holl waith. Golyga hyn ofalu am aer, tir, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella lles Cymru, a darparu gwell dyfodol i bawb.

Nodau

Codi ymwybyddiaeth am effaith sbwriel a thipio anghyfreithlon ar yr amgylchedd, cymunedau a'r economi

Hyd y sesiwn

Hyd at 4 awr

Lleoliad

Unrhyw le

Maes Cwricwlwm

ADCDF
Daaryddiaeth

Cynllun y sesiwn

Trafodaeth ragarweiniol:

Gofynnwch i'r grŵp pa fath o sbwriel maent yn eu cynhyrchu?

Beth maent yn gwneud gyda'u gwastraff?

Gofynnwch i'r grŵp os ydynt yn gwybod beth yw tipio anghyfreithlon?

Esboniwch mai cael gwared o wastraff mewn modd anghyfreithlon yw tipio anghyfreithlon.

Mae Taclo Tipio Cymru'n bodoli i oresgyn y bygythiad yn erbyn bywyd gwyllt a phobl a brwydro'r niwed i'r amgylchedd yn ein hardaloedd gwledig a threfol trwy roi diwedd ar dipio anghyfreithlon.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth gan gynnwys sut i adrodd am achos tipio anghyfreithlon ar eu gwefan:

www.flytippingactionwales.org/cy/

Mae'r holl amserau'n frasgywir. Dewiswch o'r gweithgareddau canlynol er mwyn tynnu sylw at effaith sbwriela a thipio anghyfreithlon ar yr amgylchedd, cymunedau a'r economi.

Mae'r holl amseroedd a nodir yn rhai bras

Gweithgaredd 1 Hyd 20 munud

Gêm geirfa gwastraff a thipio anghyfreithlon

Gweithgaredd cyfateb cardiau sy'n cyflwyno termau sy'n gysylltiedig â sbwriela a thipio anghyfreithlon

Adnoddau a gwybodaeth cynorthwyol:

- Cardiau adnodd: geirfa gwastraff a thipio anghyfreithlon

Gweithgaredd 2 Hyd 60 munud

Dal tipiwr anghyfreithlon

Mae dysgwyr yn ymddwyn fel ditectif gan archwilio achos lleol o dipio anghyfreithlon.

Adnoddau a gwybodaeth cynorthwyol:

- Taflen waith: Digwyddiad
- Taflen waith: Tystiolaeth
- Llythyr tystiolaeth
- Cofnod sain o'r adroddiad

Gweithgaredd 3 Hyd 25 munud

Sbwriel parhaol

Gweithgaredd lle mae dysgwyr yn gweithio fel tîm i osod eitemau mewn trefn o ran faint o amser maent yn credu ei fod yn cymryd i'r eitemau chwalu yn y môr.

Adnoddau a gwybodaeth cynorthwyol:

- Cardiau adnoddau: Sbwriel ar y Tir
- Cardiau adnoddau: Sbwriel yn y Môr
- Nodyn gwybodaeth: Sbwriel sy'n para am byth - llinell amser.

Gweithgaredd 4 Hyd 45 munud

3 C Sbwriela a thipio anghyfreithlon

Gweithgaredd lle mae dysgwyr yn archwilio achosion a chanlyniadau sbwriela a thipio anghyfreithlon a sut y gellir eu hatal.

Adnoddau a gwybodaeth cynorthwyol:

- Cardiau Adnoddau: Y 3'C'
- Nodyn gwybodaeth: Y 3'C'

Gweithgaredd 5 Hyd 45 munud

Lloffion papur newydd

Mae dysgwyr yn creu adroddiad newyddion i'w ddarlledu ar y teledu yn seiliedig ar benawdau papurau newydd sy'n ymwneud ag achosion o dipio anghyfreithlon.

Adnoddau a gwybodaeth cynorthwyol:

- Cardiau adnodd: Penawdau papurau newydd

Gweithgaredd 6 Hyd 45 munud

Croesi'r crwbanod

Gêm lle mae dysgwyr (crwbanod) yn ceisio croesi grid (y môr) tra'n osgoi gwastraff plastig peryglus.

Gweithgaredd 7 Hyd 15 munud

A wyddoch chi?

Gweithgaredd lle mae dysgwyr yn ateb cwestiynau amlddewis sy'n tynnu sylw at faint o wastraff rydym yn cynhyrchu a beth rydym yn ei wneud ag ef.

Cyfarfod Llawn

Ystyriwch:

- Pa fath o broblemau mae sbwriela a thipio anghyfreithlon yn achosi ar gyfer yr amgylchedd, yr economi a chymunedau lleol?
- Pam fod pobl yn tipio'n anghyfreithlon?
- Beth y medrwyd ei wneud er mwyn helpu atal y problemau a achosir gan sbwriela a thipio anghyfreithlon.

Atgoffwch y grŵp i adrodd am unrhyw achosion o dipio anghyfreithlon i'r awdurdod lleol yn hytrach na cheisio archwilio'r digwyddiad eu hunain.

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata? Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i www.cyfoethnaturiolcymru/dysgu

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000



Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unig â rheolau'r Forest Stewardship Council®. Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®.



Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgysgu 100%. Printed on Revive offset 100% recycled paper.